OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 591 (Cy.60) (C.22)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (Cychwyn) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - - 3 Mawrth 2008

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 245(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (Cychwyn) (Cymru) 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru ac eithrio mewn perthynas ag awdurdod heddlu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007;

ystyr "Deddf 1999" ("*the 1999 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1999(**2**); ac

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000(**3**).

2. Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2008—

(a) adran 137;

(b) adran 140;

(c) adran 210; ac

(ch) adran 241, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiadau yn Rhan 8 o Atodlen 18 i—

(i) adrannau 5 a 6(2)(c), (d) ac (l) o Ddeddf 1999;

(ii) y gair "5," yn adran 28(2) o Ddeddf 1999;

(iii) y geiriau "Subject to subsection (5)," yn adran 21(4) o Ddeddf 2000; a

(iv) adran 21(5) o Ddeddf 2000.

(**1**) 2007 p.28.
(**2**) 1999 p.27.
(**3**) 2000 p.22.